# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 20 Mai 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion

(199)

**Datganiad y Llywydd**
Croesawodd y Llywydd y ddirprwyaeth o Senedd Canada, gan gynnwys Llefarydd Ail Dŷ'r Senedd, a oedd yn yr Oriel Gyhoeddus.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 7 a 9 i 15. Tynnwyd cwestiwn 8 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

Dechreuodd yr eitem am 14.20

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 3 a 5 i 15. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl.

### 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 15.06

**Cynnig i ethol aelodau i Bwyllgorau**
Dechreuodd yr eitem am 15.17

**NDM5510 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Gwyn Price (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn lle Vaughan Gething (Llafur).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cyflwyno Bil Addysg Uwch (Cymru)**

Dechreuodd yr eitem am 15.17

**5 Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014**

Dechreuodd yr eitem am 16.08

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5508 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ebrill 2014.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 9 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**6 Dadl: Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb – Fframwaith Gweithredu**

Dechreuodd yr eitem am 16.10

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5507 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' a'r Cynllun Cyflawni ategol, a lansiwyd ar 12 Mai 2014.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r pryder a fynegwyd gan y Cyngor Cydraddoldeb Hiliol yng Nghyfarfod Fforwm Hil Cymru ar 13 Mawrth 2014 bod materion yn ymwneud â hil yn isel ar yr agenda i Lywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 24 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu cofnodi a chyhoeddi troseddau casineb yn briodol am y tro cyntaf.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 8 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan gynghorau ysgol a llywodraethwyr ysgol, yn ogystal ag athrawon, teuluoedd a'r gymdeithas ehangach, rôl i'w chwarae i atal bwlio.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5507 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' a'r Cynllun Cyflawni ategol, a lansiwyd ar 12 Mai 2014.

2. Yn croesawu bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu cofnodi a chyhoeddi troseddau casineb yn briodol am y tro cyntaf.

3. Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan gynghorau ysgol a llywodraethwyr ysgol, yn ogystal ag athrawon, teuluoedd a'r gymdeithas ehangach, rôl i'w chwarae i atal bwlio.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd yr eitem am 17.03

Oherwydd nam technegol ar y system bleidleisio electronig, ataliwyd y trafodion tan 17.15. Ailymgynullodd y cyfarfod am 17.15, a chafodd yr Aelodau eu hysbysu gan y Dirprwy Lywydd y byddai angen pleidleisio drwy godi dwylo o dan Reol Sefydlog 12.43(i) a gofynnodd a oedd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu. Dim ond un Aelod oedd yn gwrthwynebu, felly aeth y Dirprwy Lywydd ymlaen â'r pleidleisio drwy godi dwylo.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.24

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 21 Mai 2014**